# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 6

TROSOLWG A CHRAFFU

### PENNOD 1

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu*

**58 Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i ganiatáu i unrhyw ddau awdurdod lleol neu ragor wneud y canlynol—

(a) penodi cyd-bwyllgor ("cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu"), a

(b) trefnu i'r pwyllgor arfer unrhyw swyddogaethau o ran llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r canlynol ynghylch unrhyw fater nad yw'n fater wedi ei eithrio—

(i) unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau lleol sy'n penodi'r pwyllgor, a

(ii) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gweithrediaeth yr awdurdod lleol.

(2) Yn is-adran (1)(b) ystyr "mater wedi ei eithrio" yw unrhyw fater y gallai pwyllgor trosedd ac anhrefn lunio adroddiad neu wneud argymhellion mewn cysylltiad ag ef—

(a) yn rhinwedd is-adran (1)(b) o adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (craffu gan awdurdodau lleol ar faterion trosedd ac anhrefn), neu

(b) yn rhinwedd is-adran (3)(a) o'r adran honno.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth ar gyfer gwneud trefniadau dim ond mewn amgylchiadau rhagnodedig, neu'n ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau rhagnodedig;

(b) darpariaeth ar gyfer penodi is-bwyllgorau i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu;

(c) mewn perthynas â chyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu (neu is-bwyllgorau i bwyllgorau o'r fath) darpariaeth sy'n cymhwyso unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r canlynol, neu sy'n cyfateb iddi neu iddynt—

(i) is-adrannau (4) i (15A) a (18) o adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000,

(ii) adrannau 21A, 21B, 21D, 21F a 21G o'r Ddeddf honno,

(iii) adran 186 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac Atodlen 11 iddi.

(4) Rhaid i awdurdod lleol a chyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir iddynt gan yr adran hon neu oddi tani, neu wrth benderfynu ai i'w harfer, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (pwyllgorau trosolwg a chraffu), yn is-adran (2A)(e)—

(a) ar ôl “committee” mewnosoder “—

(i)”;

(b) ar ôl “concerned” mewnosoder “, or

(ii) a joint overview and scrutiny committee within the meaning of section 58 of the Local Government (Wales) Measure 2011 appointed by two or more local authorities, one of which is the authority concerned”.